BAXTER, GEORGE ROBERT WYTHEN (1815 - 1854), awdur

Enw: George Robert Wythen Baxter
Dyddiad geni: 1815
Dyddiad marw: 1854
Priod: Martha Maria Baxter (née Caulfield)
Rhiant: George Trotham Baxter
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Elwyn Evans

O'r Bryn Uchaf, Llanllwchhaiarn, Sir Drefaldwyn. Ganwyd yn Nhrefynwy, a'i fedyddio ar 14 Mehefin 1814, yn unig fab George Trotham Baxter (1762 - 1841) o Henffordd, ac yn aelod o hen deulu a fu ers amser yn ardal y Drenewydd. Un o'i gyndeidiau oedd Richard Baxter, y diwinydd enwog.

Ymaelododd mewn coleg yn Rhydychen ond ni raddiodd yno. Rhestrir pedwar o'i weithiau yng nghatalog llyfrau printiedig yr Amgueddfa Brydeinig. Yn eu plith ceir *The Book of the Bastiles, or the History of the working of the Poor Law* (1841), llyfr a gondemniai'r tlotai, a *Don Juan Junior; a poem by Byron's Ghost*, 1839.

Priodod Martha Maria Caulfield (a fu farw 1 Ebrill 1875) yn Ninbych y Pysgod 5 Mehefin 1833. Bu farw 17 Ionawr 1854, ac y mae cofeb iddo yn eglwys Llanllwchaiarn.

Awdur

Elwyn Evans

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

British Museum. Catalogue of Printed Books (1882)

E. R. Morris, G. R. Wythen Baxter, Upper Bryn, Newtown, 1814-1854, *Montgomeryshire collections: relating to Montgomeryshire and its borders*, Cyf. 59, tt. 82-101

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 68031369

Wikidata: Q5543939

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu